

Uwch Gynorthwy-ydd Gofal

Cyflog £29,093 – 31,586 / Graddfa G04

Parhaol, 37 awr yr wythnos 30 awr yr wythnos, Llawn Amser

Tŷ Croes Atti, Fflint

Mae Cyngor Sir y Fflint yn dymuno penodi Uwch Gynorthwy-ydd Gofal a chanddynt brofiad o ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth i unigolion mewn cartref gofal preswyl.

Fel Uwch Gynorthwy-ydd Gofal fe ddylech allu dangos profiad o weithio fel rhan o dîm gofal a chymorth sy'n darparu gwasanaethau o ansawdd i unigolion.

Mae'r rôl yn gofyn am sgiliau gwaith tîm rhagorol, sgiliau trefnu, sgiliau cyfathrebu a gallu cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau a chanllawiau. Byddwch yn canolbwyntio ar hybu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar bobl, gan alluogi preswylwyr i fod mor annibynnol â phosib' a chynnwys preswylwyr ym mywyd a gweithrediad y Cartref a chefnogi preswylwyr i gael y dewis a'r rheolaeth fwyaf posib ar eu bywydau eu hunain.
Byddwch yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill e.e. teulu, gofalwyr, cydweithwyr iechyd a gweithwyr cymdeithasol, gan sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl mewn gwasanaethau preswyl yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

**Noder, mae'r swydd hon yn cynnwys gweithio sifftiau, gweithio ar benwythnosau a bydd angen i chi fod yn rhan o rota i Reolwyr ar Ddyletswydd, gan ymgymryd â dyletswyddau wrth gefn i weithio y tu allan i oriau er mwyn cefnogi staff a phreswylwyr yn ein 3 chartref preswyl.**
Rydym yn cynnig rheolwyr cefnogol, cyflwyniad manwl llawn a hyfforddiant a datblygiad parhaus i holl aelodau ein tîm, waeth faint o brofiad blaenorol sydd gennych.

Gan y bydd y swydd hon yn golygu y bydd gennych chi lawer o gyswllt ag oedolion diamddiffyn, bydd rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus gael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Fel un o'r cyflogwyr mwyaf yn Sir y Fflint, rydym ni'n cynnig isafswm o 34 diwrnod o wyliau blynyddol, gan gynnwys Gwyliau Banc, sy'n cynyddu i 41 diwrnod • Mynediad at y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol • Cynlluniau hael sy'n ystyriol o deuluoedd a chydbwysedd bywyd a gwaith • Gweithio'n hybrid (swyddi penodol) • Cewch fanteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd datblygu • Rhaglen cymorth i weithwyr yn rhad ac am ddim • Cynllun Beicio i'r Gwaith • Gostyngiadau ar draws masnachwyr y DU.

I gael rhagor o wybodaeth neu sgwrs anffurfiol, cysylltwch â:
Debbie Shearsmith, Rheolwr Cofrestredig ar debbie.shearsmith@flintshire.gov.uk
Rhif Ffôn Cymraeg: 01792 002129 neu Saesneg: 01352 733598

Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel
Together we can all help to keep **Flintshire** safe

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL